



Rydym ni yn Gweddi dros Ysgolion yn dyheu am weld gweddïau'n cael eu hoffrymu dros bob ysgol yn ein gwlad!

Mae cannoedd o grwpiau gweddi yn cyfarfod drwy gydol y flwyddyn i weddio am eu bod am gefnogi eu hysgolion lleol. Wrth i ni edrych ymlaen at y gobaith newydd ddaw yn sgil y gwanwyn, roeddem o'r farn mai peth da fyddai annog Cristnogion ym mhob cwr o'r wlad i ymuno i 'Garu ein hysgolion!'

Beth am ddewis dyddiad yn ystod mis Chwefror?

Gall grwpiau gweddi ac unigolion neilltuo amser i weddio dros eu hysgolion, gan ddefnyddio ein hadnoddau pwrpasol Gweddiwch dros Ysgolion. Ac yna, wedi'r gweddio, efallai y bydd Duw yn ein harwain ymhellach – i 'Fendithio ein Hysgolion' mewn ffyrdd ymarferol dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod! Ymunwch â ni yn y fenter 'Caru ein Hysgolion' a defnyddiwch #loveourschools

Mae'n hadnoddau wedi eu seilio ar Effesiaid 4 adnod 32


"Byddwch yn dirion wrth eich gilydd, yn dyner eich calon, yn maddau i'ch gilydd fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chwi."

Cynnwys

- Tudalen 2 cyfle i edrych ar yr adnod hon
- Tudalen 3 Ein nodwr llyfr newydd (archebwch gan wales@prayforschools.org)
- Tudalen 4-7 Gweddiâu gan ein partneriaid a gweddiâu Share a Prayer
- Tudalen 8 Gwahanol ffyrdd y gallwn Fendithio ein Hysgolion
- Tudalen 9 Gwahanol ffyrdd y gall plant Fendithio ein Hysgolion.



Bydd rhagor o weddiâu'n cael eu hychwanegu i'n gwefan





Caru Ein Hysgolion #loveourschools

Effesiaid 4 adnod 32

“Byddwch yn dirion wrth eich gilydd, yn dyner eich calon, yn maddau i'ch gilydd fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chwi.”

Mae cariad yn golygu cymaint o bethau! Mae'r Beibl yn dweud mai 'cariad yw Duw' a'i fod am i ni fod yn debyg iddo gan garu pobl eraill, hyd yn oed pan mae hynny'n anodd.

Nid yw'n anodd caru'n cyfeillion, cyd-dynnu ag eraill yn ein hysgol a pharchu'r athrawon rydyn ni'n eu hoffi a'u hedmygu. Ond mae gweithredu ar yr adnod Feiblaidd hon yn llawer anoddach pan rydyn ni'n delio â pherson sy'n fwli, yn anonest neu'n annheg. Gallwn ofyn i'r Ysbryd Glân ein cynorthwyo i fod yn amyneddgar yn hytrach na tharo'n ôl a chasáu'r person hwnnw.



Mae **caedigrwydd** yn golygu chwilio am gyfle i wneud bywyd yn haws i bobl eraill.



Mae **Tosturi** yn golygu rhoi eich hunain yn sefyllfa'r person arall a cheisio deall yr hyn sy'n achosi poen iddyn nhw, a'r rheswm dros eu hymddygiad.



Mae **Maddeuant** yn golygu peidio dal dig yn erbyn person sydd wedi'n tramgwyddo, gan gofio 'does neb yn berffaith. Fe wnaeth Iesu'n rhyddhau ni o gymaint o bethau wrth iddo faddau i ni, a gallwn ni ddilyn ei esiampl.

Arglwydd Iesu, dydw i ddim bob amser yn berson da – does neb! Ond rwy'n gofyn i ti fy helpu yn yr ysgol i garu pobl eraill gyda'th gariad di. Os fydda i'n dangos caedigrwydd, tiriondeb a maddeuant, efallai y bydda'n nhw gweld rhywbeth ohonot ti, gan wella sefyllfaoedd gwael, Amen

Cyfieithiad: For the One gan Brian a Jenn Johnson

O llenwa fi
â thosturi a thiriondeb at yr Un,
Yr Un rwy't yn ei garu, gan roi dy Fab
dros y ddynoliaeth; rho im gariad mwy.

Rho help i mi, fel ti, i garu'n ddiwahân,
Cariad sy'n bwrw ffiniau i lawr gan weld yn glir,
Er mwyn i eraill trwof fi, dy weled di,
hyd yn oed trwy fy ngwên, teimlo cariad dwfn y Tad.



Love our schools



Caru Ein Hysgolion #loveourschools

otb

Gwneud pob ysgol yn destun gweddi

PRAY FOR SCHOOLS
www.prayforschools.org

CARE FOR THE NEEDY
Scripture Union
YOUTH FOR CHRIST
SAINT YERWALNEED
ICEE
FESTIVE

Gweddi dros ein hysgolion

Dad cariadus, diolch i Ti
am bawb sy'n rhan o'n hysgol ni.
Rho iddynt dy anogaeth,
dy ddoethineb a'th heddwch.

Dyro gryfder i'r athrawon
sy'n gweithio mor galed. Boed
iddynt fod yn gadarn ond hefyd
yn amyneddgar, yn disgwyl y
gorau ond yn barod i faddau
camgymeriadau.

Boed iddynt gefnogi eu disgyblion,
gan feithrin eu cryfderau, eu
helpu gyda'u hanawsterau, a'u
hannog i wneud eu gorau.

Cysura ac achewyddda
bawb sy'n anhapus, yn cael eu
cam-drin, ac mewn poen ac ofn.
Boed i lawer ddod i ffydd wrth
iddynt ddarganfod eu hunaniaeth
ynot Ti a dod yn ymwybodol o dy
ras anhygoel yn eu bywydau.

Gofynnwn i ti dywallt dy fendith
ar bawb sy'n rhan o gymuned ein
hysgol.
Yn enw Iesu,
Amen.

PRAY FOR SCHOOLS

Gellir archebu nodwyr llyfr sy'n cynnwys y weddi hon wrth gysylltu â
wales@prayforschools.org

Love our schools



Caru Ein Hysgolion #loveourschools

Gweddïau newydd ar gyfer 2020 – wedi’u hysgrifennu gan ein partneriaid.

“Byddwch yn dirion wrth eich gilydd; yn dyner eich calon, yn maddau i’ch gilydd fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chwi”.

Dad cariadus, deawn atat mewn gweddi yn awr, fel rhan o Garu ein Hysgolion. Diolchwn am y gwaith da sy’n digwydd yn ein hysgolion.

Gweddiwn dros athrawon a staff ategol ein hysgolion. Cofiw’n yn ein gweddïau am bawb sy’n gweithio yn ein hysgolion prif ffrwd, ysgolion mewn ysbytai, unedau y mae plant yn cael eu cyfeirio atynt ac unrhyw fath o sefydliad addysgol arall – mae’r cyfan ohonynt am gynorthwyo ein plant, wrth iddynt ddysgu, tyfu a datblygu. Gweddiwn am i’th drugaredd a’th arweiniad di fod gyda’r staff, wrth iddynt geisio ysbrydoli disgyblion eu dosbarthiadau. Dyro i athrawon **garedigrwydd, tiriondeb, a doethineb**, gyda’r cyfan yn cael ei gadarnhau trwy dy enw Sanctaidd.

Dduw byw, gweddiwn dros bob plentyn, wrth iddynt ddilyn eu gyrfa ysgol. Boed iddynt gael eu cefnogi gan gyfeillgarwch, teuluoedd, addysg, eu hathrawon a’r staff ategol er mwyn iddynt flodeuo a datblygu o ddydd i ddydd. Pan ddaw anawsterau a heriau i ran plentyn, dyro ddewrder i geisio’r gefnogaeth sydd ei hangen a galluoga’r ysgol i ddangos **caredigrwydd** a chariad tuag atynt, wrth iddynt ddarganfod y ffordd ymlaen.

Gweddiwn dros ein heglwysi, y byddwn yn ceisio perthynas agosach rhwng ein bywyd fel Cristnogion a’r ysgolion sydd o’n hamgylch. Dduw byw, cynorthwya ni i weddio dros, a gweithio gydag ysgolion ein cymunedau.

Dduw Hollalluog, gofynnwn i ti fendithio bywyd beunyddiol pawb yn ein hysgolion.

Gweddiwn hyn yn enw Iesu, ein hathro a’n cyfaill. Amen

Parch Sara Iles, Grŵp yr Eglwysi Rhyddion

“Graslon a thrugarog yw’r Arglwydd, araf i ddigio a llawn ffyddlondeb.” Salm 145 ad 8

Gweddiwn am galonnau llawn **tosturi**; Arglwydd helpa ni i garu a gwasanaethu y rhai sydd o’n hamgylch waeth beth yw’r gwahaniaethau rhyngom. Atgoffa ni o’r angen i beidio caledu’n calonnau, i edrych ar eraill fel yr wyt ti’n eu gweld, er mwyn i ni fod yn oleuni yn eu bywydau. Arglwydd, agor ein llygaid i weld y rhai o’n hamgylch sydd angen **tosturi**. Helpa ni i wrando, i ddeall eu hanghenion, i ddangos diddordeb yn eu helbulon. Arglwydd, helpa ni i fod yn debycach i ti mewn byd llawn poen, unigrwydd a doluriau – gad i ni fod yn llais i’r gorthrymedig, yn rhoddwyr i’r tlawd, ac yn gefnogaeth i’r rhai sy’n anabl. Arglwydd, boed i ni garu eraill fel yr wyt ti’n eu caru.

Prayer Spaces in Schools

Love our schools



Caru Ein Hysgolion #loveourschools

Gweddïau newydd ar gyfer 2020 – wedi'u hysgrifennu gan ein partneriaid.

“Byddwch yn dirion wrth eich gilydd; yn dyner eich calon, yn maddau i'ch gilydd fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chwi”.

O Dduw,

Diolch fod yna bobl drugarog yn y byd

Helpa ni i fod yn wyladwrus, ac yn barod i wrando er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw arwydd o angen yn ein hysgolion. Dangos i ni sut i ymateb yn feddylgar i unrhyw berson sy'n cael bywyd yn anodd trwy ddangos caredigrwydd tuag atynt. Boed i'th oleuni di lewyrchu trwom ni i'w codi o'u tywyllwch. Amen

Agor y Llyfr

Dduw cariadus, helpa ni i ddangos dy **dosturi** i bawb. Dad, dysga ni i fod yn fwy tosturiol i'r rhai yn ein hysgolion sy'n cael bywyd yn anodd oherwydd straen.

Agor ein llygaid a'n clustiau i'r rhai sydd angen rhywun i wrando arnynt. Helpa ni i ddeall yr heriau y mae disgyblion ac athrawon yn eu hwynebu.

Arwain ni â'th ddoethineb i wybod sut y gallwn gefnogi disgyblion ac athrawon. Rho i ni dy eiriau o garedigrwydd er mwyn rhoi anogaeth i eraill, yn enwedig y rhai sydd mewn angen. Helpa ni i fod yn ddwylo ac yn draed i ti yn rhannu dy gariad â'r rhai y byddwn yn eu cyfarfod mewn ysgolion.

Boed i'th Ysbryd Glân ein hysgogi i wybod pryd a sut y dylem rannu'r Newyddion Da. Amen.

Undeb y Gair

Arglwydd Iesu, diolch i Ti am faddau pob peth i ni a'n rhyddhau o euogrwydd a chywilydd. Oherwydd hyn, pan fydd rhywun yn tarfu arnom, a hynny'n fwriadol, rho i ni ddigon o gariad i allu maddau iddynt, yn hytrach na dial. Mae hynny'n anodd, weithiau bron yn amhosibl – ond gyda help yr Ysbryd Glân gallwn wneud hynny. Amen

CARE

Love our schools



Caru Ein Hysgolion #loveourschools

Gweddïau newydd ar gyfer 2020 – gan Share A Prayer

Arglwydd Dduw

Bydd gyda phob grŵp gweddi yn ein hysgolion (*ychwanegwch enw eich dinas/tref/pentref*) a phawb sy'n gweddïo dros y gwaith o feithrin ein plant a'n pobl ifanc.

Boed i'r plant deimlo grym ein gweddïau dros eu lles a'u hiechyd meddwl. Diolchwn i ti am dy gariad sy'n cwmpasu plant ein hysgolion.

Bendithiwn ac addolwn dy enw sanctaidd

Amen

Jenny – Rhwydwaith Gweddi dros Ysgolion Cheltenham

Gweddïau sy'n ein hannog i fod yn ystyriol o'n hamgylchedd gan ddau ddisgybl Blwyddyn 4 mewn ysgol yn Swydd Northampton.

Arglwydd,

Gofynnwn i ti ein helpu i arbed y greadigaeth odidog a greaist ar ein cyfer.

Rydyn ni am gael gwared o'r plastig sy'n dal i lenwi ein moroedd a'n cefnforoedd.

Cyn hir, bydd ein camgymeriadau ni yn golygu y bydd creaduriaid y môr yn marw, mae angen i ni eu gwarchod.

Gofynnwn am dy help i argyhoeddi pawb i weld yr angen i weithredu

Amen

Grace a Xanthe

Love our schools



Caru Ein Hysgolion #loveourschools

Gan athrawes yn Lundain

Dad Nefol

Diolch am yr ysgol hon, ac am fy ngosod yn y fan rwy'ti am i mi fod. Rwy'n gweddio y byddi'n rhoi nerth a chryfder emosiynol i mi allu bod yr hyn rwyf angen ei fod i bob un myfyriwr sydd o dan fy ngofal; helpa fi i beidio ag angofio fod gan pob unigolyn ei anghenion a'i gefndir. Helpa fi i fod yn oleuni iddynt wrth ddangos amynedd, arweiniad, a **charedigrwydd**. Pan fyddaf yn wan, bydd yn gadernid i mi, a choda fi er mwyn i mi fod yr hyn sydd ei angen arnynt. Pan fyddaf yn amau effaith fy nylanwad, atgoffa fi y gallaf, ynot ti, ddylanwadu'n bwerus ar genhedlaeth fydd yn trawsnewid y byd ac yn gwneud hi'n bosib i'th deyrnas ddod.

Dad, rwy'n gweddio, pan fyddaf yn teimlo rhwystredigaeth oherwydd mân reolau, pan fyddaf yn ymwybodol o gyfyngiadau fy rol, y byddi di yn gwneud i mi deimlo llawenydd a chyffro wrth i mi neidio o'm gwely ar fore tywyll ac oer. Diolch, Arglwydd, am bob myfyriwr sydd wedi eu gosod gennynt dan fy ngofal. Diolch i ti am eu rhieni a'u brodyr a'u chwiorydd. Gweddïaf y byddaf yn gallu dangos dy gariad caredig a'th gefnogaeth i bob myfyriwr a theulu hyd yn oed mewn amseroedd anodd a heriol. Dyro i mi ddoethineb i wybod pa frwydrau y dylid eu hymyladd, a'r rhai fydd yn arwain at newid, a brwdfrydedd i barhau yn y gwaith. Rwy'n gweddio y byddi'n adfywio'r cariad sydd gennyf at ddysgu. Diolch am y rhodd werthfawr a dderbyniais gennynt ac arfoga fi â'r hyn rwyf ei angen er mwyn y rhai rwy'ti wedi eu gosod dan fy ngofal.

Yn enw Iesu

Amen

Love our schools



Caru Ein Hysgolion #loveourschools

Syniadau ar gyfer 'Bendithio ein hysgolion'

♥ Gweddi:

Beth am i chi gyfarfod â phobl o'r un meddwl a gweddïo'n rheolaidd dros eich ysgol. Gall hyn ddigwydd yn wythnosol, yn fisol, neu bob hanner tymor. Beth am gysylltu â Christnogion eraill sy'n gweddïo gan ofyn iddynt ganolbwyntio'u gweddïau unwaith y tymor ar ysgolion a phobl ifanc. Mae rhai grwpiau'n gweddïo yn y bore, eraill amser cinio a rhai ar ôl rhannu brechdanau. Mae llawer yn gweddïo gyda'r nos gyda Christnogion o'r gwahanol eglwysi yn eu hardal wedi cyfnod o addoliad.

- ♥ Gofynnwch i'r athrawon neu'r staff am geisiadau gweddi. Mae rhai grwpiau'n gofyn am ganiatâd i osod blwch gweddi yn y Dderbynfa neu'r Ystafell Athrawon.
- ♥ Gweddïwch dros, ac anogwch bawb y gwyddoch chi amdanynt sy'n gweithio mewn ysgolion. Beth am holi ym mha ddsbarthiadau mae plant eich eglwys, a'u hannog i weddio dros y plant hyn.
- ♥ Gweddïwch dros ein hathrawon, cynorthwywyr dosbarth a'r ysgol fel cymuned gyfan, dros y plant a'r bobl ifanc – gan ganolbwyntio efallai ar ddsbarth gwahanol bob dydd.

♥ Dywedwch Diolch yn fawr:

wrth athro neu aelod arall o'r staff

♥ Cynigiwch help llaw:

Efallai fod yna waith i'w wneud yn yr ystafell ddsbarth – er enghraifft

- ♥ Golchi potiau paent, llun-gopiö neu rhoi min ar bensiliau. Casglu sbwriel, gwrando ar blant yn darllen a/neu
- ♥ Beth am wirfoddoli mewn digwyddiad yn yr ysgol neu ddod yn aelod o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon
- ♥ Gallech helpu'r ysgol i ddechrau prosiect "Gwyrdd" e.e. ail-gylchu, defnyddio llai o blastig neu hyd yn oed creu ardal byd natur awyr-agored.

♥ Coginio cacen neu beth am gyflwyno rhodd:

rhowch wên ar wyneb yr athrawon amser paned!

Gwyddom am grwpiau gweddi sydd wedi rhoi rhodd o flodau neu blanhigion, bisgedi neu siocledi a hyd yn oed pecyn o binnau ysgrifennu a phapur, tâp selo a glud! Gofynnwch i'r eglwys gyfan fod yn rhan o hyn.

♥ Edrychwch ar y rhestr o Gyfleoedd i Wirfoddoli ar ein gwefan

Ac efallai y gallech gynnig help llaw yn rheolaidd

<https://www.prayforschools.org/get-involved/volunteer-opportunities/>



Caru Ein Hysgolion #loveourschools

Syniadau sut y gall Plant 'Fendithio ein hysgolion"

- ♥ **Gweddïwch:** dros eich athrawon, cynorthwywyr dosbarth, arolygwyr amser cinio a'r staff ategol. Gofynnwch i arweinwyr eich Ysgol Sul weddio dros eich ysgol
- ♥ **Dywedwch diolch yn fawr:** wrth athro neu aelod arall o'r staff
- ♥ **Beth am greu cerdyn diolch** ar gyfer eich athro, cynorthwydd dosbarth, gofalwr neu arolygwr amser cinio. Ysgrifennwch lythyr, tynnwch lun neu efallai yr hoffech greu bathodynau ar gyfer pobl.
- ♥ **Cynigiwch help llaw:** Gofynnwch sut y gallwch chi helpu yn eich ystafell ddosbarth neu amser chwarae
- ♥ **Byddwch yn dda ac yn barod i helpu yn y dosbarth**
- ♥ **Byddwch yn garedig wrth bawb**
- ♥ **Ufuddhewch i reolau'r ysgol** a byddwch yn brydlon wrth fynd i'ch gwersi
- ♥ **Eisteddwrth wrth ymyl person** nad ydych chi fel arfer yn eistedd â nhw amser cinio
- ♥ **Gofynnwch** i'r oedolyn sy'n gofalu amdanoch chi, naill ai ar y ffordd adref neu amser te, sut ddiwrnod gawson nhw.
- ♥ **Ewch ati i ddarganfod** beth yw enw tri pherson dydych chi ddim yn eu 'nabod yn yr ysgol

Os am syniadau gwych eraill ewch i'r wefan Stewardship and 40acts

<https://40acts.org.uk/>

Love our schools